



Gweithwyr gofal preswyl i blant ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2022



Beth yw'r pwyntiau allweddol?

- Mae gweithwyr gofal preswyl i blant wedi cofrestru gyda ni ers 2008
- Mae 3,067 o weithwyr wedi cofrestru, sy'n gynydd bach o gymharu â 3,165 y llynedd
- 38 yw oedran cyfartalog gweithwyr o hyd
- Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn gweithio yn y sector preifat.



Faint ymunodd â'r Gofrestr a'i gadael?

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth 585 o weithwyr ymuno â'r Gofrestr a gadawodd 683
- O'r rhai wnaeth ymadael â'r Gofrestr, cafodd 73% eu tynnu oddi arni gan nad oedden nhw wedi cynnal eu cofrestriad
- O'r rhai wnaeth adael, gofynnodd 14.5% am dynnu eu henwau oddi ar y Gofrestr gan nad oedden nhw'n gweithio ym maes gofal preswyl i blant yng Nghymru mwyach
- Arhosodd 44 o weithwyr ar y Gofrestr mewn rôl wahanol.



Ble mae gweithwyr yn gweithio?

- Mae 73.5% yn gweithio yn y sector preifat
- Mae 20% yn gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol
- Mae 5% yn gweithio yn y trydydd sector
- Mae 23% wedi bod yn eu swydd bresennol ers dros bum mlynedd
- Mae 53.5% o weithwyr wedi dechrau yn eu rôl bresennol yn ystod y tair blynedd diwethaf.



Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

- Mae nifer y gweithwyr gofal preswyl i blant sydd ar y Gofrestr wedi cynyddu 24% yn y pum mlynedd diwethaf
- Mae canran y gweithwyr ar y Gofrestr sydd wedi cymhwyso wedi gostwng o 53% yn 2017 i 42% eleni
- Mae'r canran sy'n gweithio yn y sector preifat, gan gynnwys i asiantaethau recriwtio, wedi cynyddu o 70% yn 2017 i 73.5% eleni.



Pa gymwysterau sydd gan weithwyr?

- Mae gan 25% o weithwyr gymhwyster cyfredol CFfCh.
- Mae gan 16% gymhwyster cyfatebol derbyniol
- Nid yw 58% o weithwyr wedi cymhwyso na chofrestru gyda'r Fframwaith Ymsefydlu na'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd eto, a bydd angen iddyn nhw ennill cymhwyster cyn pen tair blynedd.



Beth yw proffil y gweithwyr?

- Mae 1,901 o weithwyr yn fenywod a 1,163 yn ddynion. Dywedodd 3 gweithiwr wrthym ei fod yn anneuaid neu'n rhyweddhylifol
- 38 yw oedran cyfartalog gweithwyr
- Mae 95% o'r gweithwyr yn wyn, yn wyn Prydeinig, yn wyn Cymreig neu'n wyn Gwyddelig
- Mae 42% o'r gweithwyr yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl
- Mae 2% o'r gweithwyr yn ystyried eu hunain yn anabl.